

# **Cwestiynau Ysgrifenedig a Atebwyd o 1 i 8 Mehefin 1999**

## **Answers to Written Questions from 1 to 8 July 1999**

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

[R] signifies the Member has declared an interest

### **Cynnwys**

### **Contents**

- |    |  |
|----|--|
| 1  | Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd<br><i>Questions to the First Secretary</i>  |
| 6  | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br><i>Questions to the Secretary for Health and Social Services</i>       |
| 9  | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd<br><i>Questions to the Secretary for Economic Development</i>                            |
| 9  | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg Cyn-16<br><i>Questions to the Secretary for Under-16 Education</i>                                    |
| 13 | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig<br><i>Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development</i> |
| 13 | Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol<br><i>Questions to the Secretary for the Environment and Local Government</i> |
| 14 | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid<br><i>Questions to the Secretary for Finance</i>  |

## **Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary**

### **Organebau wedi'u Haddasu yn Enetig**

**Rhodri Glyn Thomas:** Pryd ac ym mha fodd y bydd y Prif Ysgrifennydd yn gweithredu ar y penderfyniad a gymerwyd gan y Cynulliad, i Gymru gymryd yr awenau wrth reoli organebau wedi'u haddasu yn enetig a rhyddhau cynydau wedi'u haddasu'n enetig yn fasnachol? (WAQ376JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Caiff organebau wedi'u haddasu'n enetig a rhyddhau cynydau wedi'u haddasu'n enetig yn fasnachol eu rheoli gan amryw o ddeddfau a rheoliadau sy'n deillio'n bennaf o'r Undeb Ewropeaidd. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn cwmpasu holl gyfnodau datblygu deunyddiau wedi'u haddasu'n enetig yn ogystal â'u defnydd. Yr wythnos diwethaf, cafodd y rheolaethau llym hyn eu cryfhau ymhellach gan Gyngor Ewropeaidd y Gweinidogion Amgylcheddol er mwyn darparu gweithdrefnau rheoleiddiol llym, cynhwysfawr a chytbwys. Yn ôl y ddeddf mae'n ofynnol i'r Cynulliad weithio o fewn y fframwaith hwnnw.

Caiff swyddogaeth y Cynulliad o safbwynt cymeradwyo, rhyddhau a marchnata cynydau wedi'u haddasu'n enetig ei reoli o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac amryw o Gyfarwyddbau Ewropeaidd. O dan y Ddeddf 1990 mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u datganoli. Fodd bynnag mae'n rhaid i'r Cynulliad gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a gweithio o fewn cyfyngiadau rhwymedigaethau rhyngwladol ehangach. Ni all y Cynulliad gyflwyno moratoriwm unochrog ar fater rhyddhau cynydau wedi'u haddasu'n enetig.

Caiff bwydydd wedi'u haddasu'n enetig eu rheoli hefyd gan reoliadau Ewropeaidd ac er bod labelu bwydydd yn swyddogaeth ddatganoledig sy'n golygu y bydd gan y Cynulliad bwerau i lunio a diwygio deddfwriaeth eilaidd, ni all weithredu yn groes i gyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Yn ogystal mae cymeradwyo bwydydd sydd wedi'u haddasu'n enetig yn cael ei reoleiddio gan gyfraith Ewrop. Yng Nghymru y Cynulliad fydd y corff a fydd yn gyfrifol am asesu a bydd yn gallu manteisio ar gyngor gwyddonol arbenigol y Pwyllgor Ymgynghorol ar Fwydydd a Phrosesau Newydd.

Mae gwrando ar gyngor pwyllgorau ac arbenigwyr annibynnol yn rhan ganolog o broses y Deyrnas Unedig o reoleiddio a gwerthuso. Mae'r rhain yn llym ac yn effeithiol ac mae creu dau gomisiwn newydd a fydd yn bwrw golwg strategol ar agweddau ehangach biotechnoleg wedi'u cryfhau ymhellach. Byddant hefyd yn ategu gwaith y Pwyllgorau Ymgynghorol sydd eisoes yn bodoli. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd fydd yn gyfrifol am ddiogelwch bwyd.

Bydd y Cynulliad yn gallu manteisio ar gyngor gwyddonol o'r safon uchaf yn y grwpiau a'r Pwyllgorau hyn ac o ganlyniad bydd ganddo gyfle i ddylanwadu ar y gwaith o lunio polisïau.

Caiff y pryderon a fynegwyd gan Aelodau'r Cynulliad ynghylch addasu genetig eu hystyried yn llawn pan fydd y Cynulliad yn ystyried materion sydd o fewn ei awdurdod.

### **Genetically Modified Organisms**

**Rhodri Glyn Thomas:** When and what way will the First Secretary act on the Assembly's decision for Wales to take a lead as regards the control of both GMOs and the release of commercially produced genetically modified crops? (WAQ376JS)

**The First Secretary:** The control of GMOs and the release of commercially produced genetically modified crops is governed by a range of legislation and regulation primarily emanating from the European Union, which between them cover all stages of the development and use of GM materials. At the European Council of Environment Ministers last week these already rigorous controls were further strengthened to provide regulatory procedures that are tight, comprehensive and balanced. The Assembly is legally required to work within that regulatory framework.

The Assembly's role on GM crops for approving releases and for marketing is regulated under the Environmental Protection Act 1990 and various European Directives. The Secretary of State's powers under the 1990 Act have been devolved. However the Assembly has to comply with the requirements of EU legislation and within the constraints of wider international obligations. It is not open to the Assembly to introduce a unilateral moratorium of the commercial release of GM crops.

With regard to GM food, this is also a matter governed by European regulatory control and while food labelling is a devolved function, and therefore the Assembly will have powers to make and amend secondary legislation, it cannot act in contravention of EU law. The approval of new GM food is also regulated under EU law. The Assembly will be the assessor body in relation to Wales and have access to the expert scientific advice provided by the Advisory Committee on Novel Foods and Processes.

The advice of independent committees and experts are a central part of the UK regulatory and appraisal process. These are both rigorous and effective and they have been further strengthened by the creation of two new commissions which will have a strategic overview of the wider aspects of biotechnology and will complement the work of the existing Advisory Committees. The Food Standards Agency will be responsible for food safety.

The Assembly will have access to the highest quality scientific advice represented in these groups and Committees and the opportunity to influence the shaping of policy from their involvement with them.

The concerns about genetic modification expressed by Assembly Members will be taken fully into account when we consider issues within the authority of the Assembly.

### **Gwent Levels Nature Reserve**

**Janet Ryder:** Will the First Secretary give an assurance that money for running the Gwent Levels nature reserve will remain as a specially delegated budget? (WAQ354JS)

**The First Secretary:** The future funding arrangements for the Gwent Levels reserve will be for determination by the Assembly which will be asked later this year to approve the agreement under which it is intended that the transfer to the Countryside Council for Wales will be effected.

### **Gwarchodfa Natur Gwastadeddau Gwent**

**Janet Ryder:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd roi sicrwydd y bydd yr arian ar gyfer cynnal gwarchodfa natur Gwastadeddau Gwent yn parhau fel cyllideb wedi'i dirprwyo'n benodol? (WAQ354JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Y Cynulliad fydd yn penderfynu ar drefniadau cyllido gwarchodfa Gwastadeddau Gwent i'r dyfodol pan fydd gofyn iddo gymeradwyo'r cytundeb ar gyfer rhoi'r trefniadau trosglwyddo i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar waith yn nes ymlaen eleni.

### **Radio (Local Programme Requirements)**

**Jenny Randerson:** What prior consultation took place between the Radio Authority and the Welsh Office in relation to the Authority's recent decision to reduce the local programme requirement for Red Dragon Radio and Touch Radio in Cardiff? (WAQ444JS)

**The First Secretary:** None. The Radio Authority exercises its regulatory functions in respect of commercial analogue radio in line with the Broadcasting Act 1990 (as amended by the Broadcasting Act 1996). The Radio Authority is independent of central government and the Act does not require the Authority to consult any Government department (or any devolved administration) about decisions of this nature.

### **Radio (Gofynion am Raglenni Lleol)**

**Jenny Randerson:** Pa ymgynghori blaenorol a fu rhwng yr Awdurdod Radio a'r Swyddfa Gymreig mewn perthynas â phenderfyniad diweddar yr Awdurdod i leihau'r gofynion am raglenni lleol ar gyfer Red Dragon Radio a Touch Radio yng Nghaerdydd? (OAQ444JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dim. Mae'r Awdurdod Radio yn arfer ei swyddogaethau rheolaethol yng nghyswllt radio analog masnachol yn unol â Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Darlledu 1996). Mae'r Awdurdod Radio yn annibynnol ar y llywodraeth ganolog ac nid yw'n ofynnol yn ôl y Ddeddf i'r Awdurdod ymgynghori ag unrhyw un o adrannau'r Llywodraeth (nac unrhyw weinyddiaeth ddatganoledig) ynghylch penderfyniadau o'r fath.

### **Digital Audio Broadcasting**

**Jenny Randerson:** Has the Department for Culture, Media and Sport consulted with the Welsh Office on the future of digital audio broadcasting in Wales? (WAQ445JS)

**First Secretary:** Yes.

### **Darlledu Sain Digidol**

**Jenny Randerson:** A yw'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ymgynghori â'r Swyddfa Gymreig ynglŷn â dyfodol darlledu sain digidol yng Nghymru? (WAQ445JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ydyw.

### **European Match Funding**

**Nick Bourne:** What new money from the public sector will be provided from the Treasury for EU match fund purposes in Wales? (WAQ456VB)

**The First Secretary:** The Treasury has agreed to consider on their merits representations from the Assembly about the public spending implications arising from Objective 1 status as part of the next comprehensive spending review which will take place next year.

### **Cyllid Cyfatebol yr Undeb Ewropeaidd**

**Nick Bourne:** Pa arian newydd o'r sector cyhoeddus a ddarperir gan y Trysorlys at ddibenion cyllid cyfatebol yr UE yng Nghymru? (WAQ456VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Trysorlys wedi cytuno i ystyried, yn ôl eu rhinwedd, sylwadau gan y Cynulliad ynghylch goblygiadau gwariant cyhoeddus sy'n deillio o statws Amcan 1 fel rhan o'r adolygiad gwariant cynhwysfawr nesaf a gynhelir y flwyddyn nesaf.

### **Museum and Gallery Access**

**Nick Bourne:** What measures does the First Secretary propose to encourage access to museums and galleries? (WAQ458VB)

**The First Secretary:** A great deal has been done recently to encourage access to the National Museums and Galleries of Wales. Last year, additional funding from the Welsh Office enabled them to provide better visitor guides and improve their internet site, which Members can access from the Assembly intranet. The grant in aid settlement for the current year has enabled them to introduce free admission for pre-booked school parties. We will consider carefully any bids from the National Museums and Galleries of Wales for additional funding to extend access, in the light of other priorities, in the forthcoming budget review.

### **Mynediad i Amgueddfeydd ac Oriolau**

**Nick Bourne:** Pa fesurau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cynnig i hybu mynediad i amgueddfeydd ac orielau yng Nghymru? (WAQ458VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gwnaed llawer yn ddiweddar i annog pobl i fynychu Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru. Y llynedd, yn sgîl cyllid ychwanegol gan y Swyddfa Gymreig, bu'n bosib iddynt gynnig gwell arweinlyfrau i ymwelwyr a gwella eu safle ar y we, y gall yr Aelodau gysylltu ag ef oddi ar fewnrwyd y Cynulliad. Mae'r setliad cymorth grant ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi eu galluogi i roi mynediad am ddim i grwpiau ysgol sy'n cofrestru ymlaen llaw. Byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw geisiadau gan Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru ar gyfer unrhyw gyllid ychwanegol i ymestyn mynediad, yng ngoleuni blaenoriaethau eraill, yn yr adolygiad cyllideb sydd ar y gweill.

### **Wales European Centre**

**Nick Bourne:** What plans does the First Secretary have to develop the relationship between the Assembly and the Wales European Centre? (WAQ459VB)

**The First Secretary:** At the first meeting of the Assembly's Committee on European Affairs a fortnight ago I referred to the need to create a positive relationship with the Wales European Centre. As promised, I will meet with Mr George Wright, chairman of Wales European Centre Ltd, later this month to discuss this and a paper will be put to the next meeting of the Committee on European Affairs setting out the issues and offering a way forward.

### **Canolfan Ewropeaidd Cymru**

**Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i ddatblygu'r berthynas rhwng y Cynulliad a Chanolfan Ewropeaidd Cymru? (WAQ459VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yng nghyfarfod cyntaf Pwyllgor Materion Ewropeaidd y Cynulliad bythefnos yn ôl, cyfeiriais at yr angen i greu perthynas bositif gyda Chanolfan Ewropeaidd Cymru. Fel yr addawyd, byddaf yn cwrdd â Mr George Wright, cadeirydd Canolfan Ewropeaidd Cymru Cyf, yn nes ymlaen y mis hwn i drafod hyn a bydd papur yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn nodi'r materion ac yn cynnig ffordd ymlaen.

### **Tuition Fees (Representations)**

**Nick Bourne:** What representations has the First Secretary received relating to tuition fees? (WAQ461VB)

**The First Secretary:** I have received one from the Association of University Teachers.

### **Ffioedd Hyfforddi (Sylwadau)**

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u derbyn mewn perthynas â ffioedd hyfforddi? (WAQ461VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Derbyniais un gan y Gymdeithas Athrawon Prifysgol.

### **Tuition Fees (Impact)**

**Nick Bourne:** Will the First Secretary facilitate an inquiry into the impact of tuition fees in Wales? (WAQ462VB)

**The First Secretary:** I have recently told the Assembly that I have no plans to hold an inquiry into tuition fees in Wales.

Responsibility for student support matters, including tuition fee policy, for England and Wales remains with the Department for Education and Employment. The function has not been devolved to the National Assembly for Wales.

*I remain firmly of the view that there is no benefit to be gained from having a tuition fees policy in Wales different from that in England bearing in mind the level of cross-border flow of students in both directions. The Welsh higher education sector will gain income amounting to £66 million from private contributions to tuition fees over the three years to 2001-02, including from students domiciled in England who fill almost a third of the places at Welsh higher education institutions. If the level of tuition fees was set lower in Wales, income from private fee contributions would be reduced placing Welsh higher education institutions at a disadvantage compared to those elsewhere in the UK.*

### **Ffioedd Hyfforddi (Effaith)**

**Nick Bourne:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn trefnu ymchwiliad i effaith ffioedd hyfforddi yng Nghymru? (WAQ462VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dywedais wrth y Cynulliad yn ddiweddar nad oes gennyf unrhyw fwriad i gynnal ymchwiliad i ffioedd hyfforddi yng Nghymru.

Mae'r cyfrifoldeb dros faterion sy'n ymwneud â chynnal myfyrwyr, gan gynnwys polisiau ynghylch ffioedd hyfforddi, yng Nghymru a Lloegr yn aros gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth. Nid yw'r swyddogaeth hon wedi ei datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yr wyf yn dal yn bendant o'r farn nad oes unrhyw fantais o gael polisi gwahanol i Loegr yng Nghymru ynghylch ffioedd hyfforddi o gofio faint o fyfyrwyr sy'n croesi'r ffin i mewn ac allan o Gymru. Bydd sector addysg uwch Cymru yn ennill incwm o £66 million yn sgîl cyfraniadau preifat tuag at ffioedd hyfforddi dros y tair blynedd hyd at 2001-02, gan gynnwys gan fyfyrwyr sy'n byw yn Lloegr a fydd yn llenwi bron i draean y llefydd mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Pe gosodid ffioedd hyfforddi ar lefel is yng Nghymru, byddai'r incwm a ddeilliai o gyfraniadau ffioedd preifat yn is gan roi sefydliadau addysg uwch Cymru dan anfantais o'u cymharu â rhai eraill yn y DU.

### National Assembly Education Unit

**Nick Bourne:** Following the National Assembly Advisory Group recommendation of an education unit in the National Assembly for school children and others what progress has been made and what possible involvement is there in this project for the private sector? (WAQ357JS)

**The First Secretary:** There is a public information and education services branch within the Office of the Presiding Officer. As part of its remit, the branch is working with the education sector to raise young people's awareness and understanding of the Assembly and its role within the democratic process. A package of education materials for the use of pupils and their teachers is in the early stages of development, and a programme of school visits has been organised. Several groups of school pupils and students will have visited the Assembly before the summer recess.

Facilities for visitors will be greatly enhanced with the development of the Pierhead building as a centre for the use of school children and others visiting the Assembly. Various options are currently being considered for this development. One option is to develop the facility in partnership with external organisations that share the Assembly's commitment to promoting the education and the development of young people. Members will be consulted and further advised in due course. Work is in hand to deliver these objectives.

### Uned Addysg yn y Cynulliad Cenedlaethol

**Nick Bourne:** Yn dilyn argymhelliad Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol y dylid sefydlu uned addysg yn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer plant ysgol ac eraill, pa gamau sydd wedi'u cymryd a pha ran bosibl sydd i'r sector preifat yn y prosiect hwn? (WAQ357JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ceir cangen gwasanaethau addysg a gwybodaeth gyhoeddus yn Swyddfa'r Llywydd. Fel rhan o'i chylch gorchwyl, mae'r gangen yn gweithio gyda'r sector addysg i godi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc a chynyddu eu dealltwriaeth o'r Cynulliad a'i swyddogaeth yn y broses ddemocrataidd. Dechreuwyd datblygu pecyn o ddeunyddiau addysg i'w ddefnyddio gan ddisgyblion a'u hathrawon, a threfnwyd rhaglen o ymweliadau gan ysgolion. Bydd sawl grŵp o ddisgyblion a myfyrwyr ysgol wedi ymweld â'r Cynulliad cyn iddo gau dros yr haf.

Bydd y cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr yn llawer gwell pan ddatblygir adeilad y Pierhead fel canolfan ar gyfer plant ysgol a phobl eraill sy'n ymweld â'r Cynulliad. Mae sawl opsiwn dan ystyriaeth ar gyfer y datblygiad hwn. Un yw datblygu'r cyfleuster mewn partneriaeth gyda mudiadau allanol sy'n rhannu ymrwymiad y Cynulliad i hybu addysg a datblygiad pobl ifanc. Ymgynghorir â'r Aelodau ymhellach a rhoddir rhagor o wybodaeth iddynt maes o law. Mae camau ar waith i gyflwyno'r amcanion hyn.

### Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Secretary for Health and Social Services

#### Talygarn Rehabilitation Centre

**Geraint Davies:** When will Jane Hutt make a decision with regards to the future of Talygarn Rehabilitation Centre? (WAQ442VB)

**The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt):** Bro Taf Health Authority's proposal to transfer services at Talygarn to the Royal Glamorgan Hospital was referred to the Secretary of State for Wales following formal public consultation and is now under consideration. Work is nearly complete and I hope to announce a decision shortly.

### **Canolfan Adsefydlu Tal-y-garn**

**Geraint Davies:** Pryd y bydd Jane Hutt yn gwneud penderfyniad ynglŷn â dyfodol Canolfan Adsefydlu Tal-y-garn? (WAQ442VB)

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Cyfeiriwyd cynnig Awdurdod Iechyd Bro Taf i drosglwyddo gwasanaethau yn Nhal-y-garn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn sgîl ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ac y mae dan ystyriaeth ar hyn o bryd. Mae'r gwaith bron a dod i ben a gobeithiaf gyhoeddi'r penderfyniad yn fuan.

### **Air Ambulance Service for Wales**

**Carwyn Jones:** Does Jane Hutt have any plans to develop an air ambulance service for Wales? (WAQ352VB)

**Jane Hutt:** There are no plans presently to develop a dedicated air ambulance service although this position is regularly reviewed by the Welsh Ambulance Services NHS Trust and officials. The trust has a formal arrangement with the police service, the Royal Air Force and the West Midlands Air Ambulance Service to provide helicopter services, whenever necessary, and it considers this arrangement sufficient to provide air ambulance cover for the whole of Wales.

### **Gwasanaeth Ambwlans Awyr ar gyfer Cymru**

**Carwyn Jones:** A oes gan Jane Hutt unrhyw gynlluniau i ddatblygu gwasanaeth ambiwlans awyr ar gyfer Cymru? (WAQ352VB)

**Jane Hutt:** Nid oes bwriad ar hyn o bryd i ddatblygu gwasanaethau ambiwlans awyr penodol er bod y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambwlans Cymru a swyddogion. Mae gan yr ymddiriedolaeth drefniant ffurfiol gyda'r heddlu, y Llu Awyr Brenhinol a Gwasanaeth Ambwlans Awyr Gorllewin Canolbarth Lloegr ar gyfer cynnig gwasanaethau hofrenyddion, pan fydd raid, ac mae'n credu bod y trefniant hwn yn ddigon i gynnig gwasanaeth ambiwlans awyr ar gyfer Cymru gyfan.

### **Royal Glamorgan Hospital (Psychiatric Unit)**

**Geraint Davies:** What plans has Jane Hutt in respect of funding the psychiatric unit from the East Glamorgan Hospital site to the new Royal Glamorgan Hospital? (WAQ443VB)

**Jane Hutt:** The psychiatric unit at the East Glamorgan Hospital will remain in use following the transfer of other services to the new Royal Glamorgan Hospital. The question of funding a new unit to be located at the Royal Glamorgan Hospital will be considered by the National Assembly for Wales later this year.

### **Ysbyty Royal Glamorgan (Uned Seiciatryddol)**

**Geraint Davies:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt mewn perthynas â chyllido symud yr uned seiciatryddol o safle Ysbyty Dwyrain Morgannwg i Ysbyty newydd Royal Glamorgan? (WAQ443VB)

**Jane Hutt:** Bydd uned seiciatryddol Ysbyty Dwyrain Morgannwg yn parhau i gael ei defnyddio ar ôl trosglwyddo'r gwasanaethau eraill i Ysbyty newydd Royal Glamorgan. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried cyllido uned newydd yn Ysbyty Royal Glamorgan yn nes ymlaen eleni.

#### **Denbigh Mental Hospital (Site)**

**Rod Richards:** Does Jane Hutt have any plans to prevent the Denbigh Mental Hospital site on the outskirts of Denbigh deteriorating into dereliction? (WAQ446VB)

**Jane Hutt:** Responsibility for the repair and maintenance of the former North Wales Hospital, Denbigh lies with its new owners. As it is a listed building, if necessary the local authority may carry out urgent works, such as action to prevent vandalism or theft or works to keep the building weatherproof or safe from collapse, and recover the costs from the owners.

#### **Ysbyty Meddwl Dinbych (Safle)**

**Rod Richards:** A oes cynlluniau gan Jane Hutt i atal safle Ysbyty Meddwl Dinbych ar gyrion Dinbych rhag adfeilio? (WAQ446VB)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb ei berchnogion newydd yw cynnal a chadw a thrwsio hen Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych. Gan ei fod yn adeilad rhestredig, gall yr awdurdod lleol gynnal gwaith brys arno os oes raid, megis cymryd camau i atal fandaliaeth neu ddwyn neu sicrhau bod yr adeilad yn cael ei warchod rhag y tywydd neu rhag dymchwel, ac adfer y costau gan yr perchnogion.

#### **Denbigh Mental Hospital (Sale)**

**Rod Richards:** Will Jane Hutt detail the reasons for not considering offers from Kerrington plc in 1997 and J Franklin Engineering in 1997 and 1998 in the sale of the Denbigh Mental Hospital? (WAQ449VB)

**Jane Hutt:** The bids made by Kerrington plc and J Franklin Engineering in 1997 were considered, but not accepted because at the time the North Wales Health Authority was in discussion with alternative parties who were offering substantially more for the site.

The bids made by J Franklin Engineering in November 1998 were also lower than other offers received and subsequently the company was not successful in acquiring the site.

#### **Ysbyty Meddwl Dinbych (Gwerthu)**

**Rod Richards:** A fydd Jane Hutt yn nodi'n fanwl y rhesymau dros beidio ag ystyried cynigion Kerrington plc ym 1997 a J Franklin Engineering ym 1997 a 1998 o safbwynt gwerthu Ysbyty Meddwl Dinbych? (WAQ449VB)

**Jane Hutt:** Rhoddwyd ystyriaeth i gynigion Kerrington plc a J Franklin Engineering ym 1997, ond ni dderbyniwyd hwy oherwydd ar y pryd yr oedd Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru mewn trafodaethau gyda phartïon eraill a oedd yn cynnig llawer mwy am y safle.

Roedd cynigion J Franklin Engineering ym mis Tachwedd 1998 hefyd yn is na chynigion eraill a ddaeth i law ac felly ni lwyddodd y cwmni yn eu cais i brynu'r safle.

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd Questions to the Secretary for Economic Development**

### **Welfare Food**

**Brian Gibbons:** Will Rhodri Morgan clarify the details of how the £12.9 million allocated to 'welfare food' will be spent? (WAQ425JS)

**The Secretary for Economic Development (Rhodri Morgan):** This question is more appropriate for answer by my Cabinet colleague, the Assembly Secretary for Health and Social Services, Jane Hutt. However, I can say with her authority that expenditure under the welfare food scheme provides welfare milk and vitamin supplements to expectant mothers, breastfeeding mothers and children under five years in families in receipt of income support or on income-based jobseeker's allowance. The scheme is administered under the Welfare Food Regulations 1996 (SI 1996/1434) which is not devolved to the Assembly.

### **Bwyd Lles**

**Brian Gibbons:** A wnaiff Rhodri Morgan egluro'n fanylach y modd y bydd y £12.9 miliwn a ddyrannwyd i 'fwyd lles' yn cael ei wario? (WAQ425JS)

**Yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd (Rhodri Morgan):** Byddai'n fwy addas i'm cyd-aelod o'r Cabinet, Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad, Jane Hutt, ateb y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, gyda'i chennad, gallaf ddweud bod gwariant o dan y cynllun bwyd lles yn darparu llaeth ac ychwanegiadau fitamin lles i famau beichiog, mamau sy'n bwydo ar y fron a phlant dan bump oed mewn teuluoedd sy'n derbyn cymorthdal incwm neu lwfans chwilio am waith seiliedig ar incwm. Mae'r cynllun hwn yn cael ei weinyddu dan Reoliadau Bwyd Lles 1996 (SI 1996/1434) ac nid ydynt wedi eu datganoli i'r Cynulliad.

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 The Secretary for Under-16 Education**

### **Welsh Joint Education Committee (Service Provision)**

**Jenny Randerson:** What services are currently provided by the Welsh Joint Education Committee that overlap with those provided by Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales (ACCAC)? (WAQ387JS)

**The Secretary for Under-16 Education (Rosemary Butler):** The WJEC's examinations function is subject to regulatory oversight by the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales (ACCAC). The WJEC is one of the organisations which receives commissions from ACCAC for the provision of bilingual classroom materials.

### **Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (Gwasanaethau a Ddarperir)**

**Jenny Randerson:** Pa wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru sy'n gorgyffwrdd â'r gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Cwricwlwm, Cymwysterau ac Asesu Cymru? (WAQ387JS)

**Yr Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 (Rosemary Butler):** Mae swyddogaeth arholi CBAC yn cael ei oruchwylio at ddibenion rheoleiddio gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac

Aesu Cymru (ACCAC). Mae CBAC yn un o'r sefydliadau sy'n cael eu comisiynu gan ACCAC i ddarparu deunyddiau dwyieithog ar gyfer yr ystafell ddosbarth.

#### **Welsh Joint Education Committee (Finance)**

**Jenny Randerson:** Does Rosemary Butler have any information on any financial difficulties experienced by the Welsh Joint Education Committee either currently or in the recent past? (WAQ388JS)

**Rosemary Butler:** The financial management of the WJEC is a matter for the board.

#### **Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (Cyllid)**

**Jenny Randerson:** A oes gan Rosemary Butler unrhyw wybodaeth am unrhyw anawsterau ariannol y mae Cyd-bwyllgor Addysg Cymru wedi eu cael yn y gorffennol agos neu y mae yn eu cael ar hyn o bryd? (WAQ388JS)

**Rosemary Butler:** Mater i'r bwrdd yw rheolaeth ariannol CBAC.

#### **Welsh Joint Education Committee (Legal Structure)**

**Jenny Randerson:** What problems currently exist over the legal structure of the Welsh Joint Education Committee? (WAQ389JS)

**Rosemary Butler:** The constitutional position of the WJEC is a matter for the board and their legal advisers.

#### **Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (Strwythur Cyfreithiol)**

**Jenny Randerson:** Pa broblemau sy'n bodoli o safbwynt strwythur cyfreithiol Cyd-bwyllgor Addysg Cymru? (WAQ389JS)

**Rosemary Butler:** Mater i'r bwrdd ac i'w hymgyngorwyr cyfreithiol yw sefyllfa gyfansoddiadol CBAC.

#### **Welsh Joint Education Committee (Relationship with the Welsh Office)**

**Jenny Randerson:** What discussions have taken place between the Welsh Joint Education Committee management and the Welsh Office since May 1997? (WAQ392JS)

**Rosemary Butler:** The Secretary of State met the chairman, the senior vice-chairman and the chief executive of the WJEC on 13 May 1998. Numerous discussions between Welsh Office officials and the staff of the WJEC covering a variety of education topics have taken place during this period.

#### **Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (Perthynas â'r Swyddfa Gymreig)**

**Jenny Randerson:** Pa drafodaethau sydd wedi cael eu cynnal rhwng rheolwyr Cyd-bwyllgor Addysg Cymru a'r Swyddfa Gymreig ers mis Mai 1997? (WAQ392JS)

**Rosemary Butler:** Cyfarfu'r Ysgrifennydd Gwladol â chadeirydd, uwch ddirprwy-gadeirydd a phrif weithredwr CBAC ar 13 Mai 1998. Cynhaliwyd nifer o drafodaethau rhwng swyddogion y Swyddfa Gymreig a staff CBAC ynglŷn ag amrywiaeth o bynciau'n ymwneud ag addysg yn ystod y cyfnod hwn.

### Welsh Joint Education Committee (Relationship with ACCAC)

**Jenny Randerson:** Will Rosemary Butler give an assurance that the structure of the Welsh Joint Education Committee will not be changed until the Assembly has had an opportunity to examine the relationship between WJEC and the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales? (WAQ393JS)

**Rosemary Butler:** As a company jointly owned by the local authorities in Wales, the structure of the WJEC is a matter for the board, which is made up of representatives of those authorities.

### Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (Perthynas ag ACCAC)

**Jenny Randerson:** A all Rosemary Butler sicrhau na chaiff strwythur Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru ei newid nes i'r Cynulliad gael cyfle i archwilio'r berthynas rhwng CBAC ac Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru? (WAQ393JS)

**Rosemary Butler:** Fel cwmni a berchenogir ar y cyd gan awdurdodau lleol Cymru, mae strwythur CBAC yn fater i'r bwrdd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr yr awdurdodau hynny.

### Welsh Joint Education Committee (Monitoring)

**Jenny Randerson:** What mechanisms are in place to enable the Assembly to effectively monitor progress of the Welsh Joint Education Committee? (WAQ405JS)

**Rosemary Butler:** Overall responsibility for the management of the WJEC rests with the board. Regulatory control of the WJEC's examinations function is exercised by ACCAC, which is an Assembly sponsored public body.

### Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (Monitro)

**Jenny Randerson:** Pa fecanweithiau sydd mewn grym i alluogi'r Cynulliad i fonitro cynnydd Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru yn effeithiol? (WAQ405JS)

**Rosemary Butler:** Y bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros reoli CBAC. ACCAC sy'n gyfrifol am reoleiddio swyddogaethau arholi CBAC, ac mae ACCAC yn gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

### Pembrokeshire Village Schools (Closure)

**Nick Bourne:** What action does Rosemary Butler propose in relation to the proposed closure of village schools in Pembrokeshire? (WAQ450VB)

**Rosemary Butler:** The planning and supply of school places is the responsibility of local education authorities. I am aware that Pembrokeshire County Council is considering the future of five of its small rural schools. If the LEA decides that it wishes to close any of the schools it has to publish statutory proposals. If objections are received it will fall to me under the Assembly's delegation arrangements to decide whether to approve or reject the proposals taking into account all factors brought to my attention. In accordance with the published guidance I would not normally be prepared to approve closure of a popular and effective school unless there was evidence that the alternative proposed would offer at least equivalent quality and diversity of education at lower total cost than would have been available had the school remained open. In addition to the educational considerations the effects on communities would be taken into account.

### Ysgolion Pentref Sir Benfro (Cau)

**Nick Bourne:** Pa gamau y mae Rosemary Butler am eu cynnig mewn perthynas â'r bwriad i gau ysgolion pentref yn Sir Benfro? (WAQ450VB)

**Rosemary Butler:** Awdurdodau addysg lleol sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflenwi llefydd mewn ysgolion. Gwn fod Cyngor Sir Benfro wrthi'n ystyried dyfodol pump o'i ysgolion bach gwledig. Os penderfyna'r AALl ei fod am gau unrhyw un o'r ysgolion hyn, mae'n rhaid iddo gyhoeddi cynigion statudol. Os ceir gwrthwynebiad, fi fydd â'r gwaith, dan drefniadau dirprwyo'r Cynulliad, o benderfynu a ddylid cymeradwyo neu wrthod y cynigion gan ystyried yr holl ffactorau dan sylw. Yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd, ni fuaswn yn barod fel arfer i gymeradwyo cau ysgol boblogaidd ac effeithiol onid oedd tystiolaeth y byddai'r opsiwn arall yn cynnig addysg oedd o leiaf o'r un ansawdd ac amrywiaeth am gyfanswm cost is nag a fyddai ar gael pe bai'r ysgol wedi aros ar agor. Yn ogystal â'r ystyriaethau addysgol, byddai'r effeithiau ar y cymunedau hefyd yn cael eu hystyried.

### Early Years Education (Teaching Qualifications)

**Nick Bourne:** What qualifications are considered necessary for staff who are teaching three and four year olds? (WAQ457VB)

**Rosemary Butler:** A person may only be employed as a teacher in a maintained school if she or he has qualified teacher status. Someone without a teaching qualification can be employed as a support worker in a school or employed in private and voluntary settings providing early years education. All early years education settings funded by local education authorities have to work to the 'Desirable Learning Outcomes' established by ACCAC and are inspected on this basis.

Work is in hand on a new qualifications framework for early years education, childcare and playwork, led by the national training organisations and ACCAC.

### Addysg Blynyddoedd Cynnar (Cymwysterau Dysgu)

**Nick Bourne:** Pa gymwysterau sy'n cael eu hystyried yn rhai hanfodol ar gyfer staff sy'n addysgu plant rhwng tair a phedair blyydd oed? (WAQ457VB)

**Rosemary Butler:** Gellir cyflogi athrawon mewn ysgol sy'n cael ei chynnal dim ond os oes ganddynt statws athro neu athrawes â chymwysterau. Gellir cyflogi rhywun heb gymwysterau addysgu fel gweithiwr ategol mewn ysgol neu mewn sefydliadau preifat a gwirfoddol sy'n cynnig addysg blynyddoedd cynnar. Mae'n rhaid i bob sefydliad addysg blynyddoedd cynnar a gyllidir gan awdurdodau addysg lleol weithio i'r 'Canlyniadau Dysgu Dymunol' a sefydlwyd gan ACCAC a chânt eu harchwilio ar y sail hwn.

Mae gwaith yn cael ei wneud ar fframwaith cymwysterau newydd ar gyfer addysg, gofal plant a gwaith chwarae blynyddoedd cynnar, dan arweiniad mudiadau hyfforddi cenedlaethol ac ACCAC.

### Pembroke Dock Nursery School

**Nick Bourne:** Has Rosemary Butler received representations regarding the proposed closure of Pembroke Dock Nursery School? (WAQ555VB)

**Rosemary Butler:** I have received representations from one member of the public.

## Ysgol Feithrin Doc Penfro

**Nick Bourne:** A yw Rosemary Butler wedi derbyn sylwadau ynglŷn â'r bwriad i gau Ysgol Feithrin Doc Penfro? (WAQ555VB)

**Rosemary Butler:** Yr wyf wedi derbyn sylwadau gan un aelod o'r cyhoedd.

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development

### Genetically Modified Foods

**Nick Bourne:** When does Christine Gwyther propose to make a statement on (i) a moratorium on the growing of crops; (ii) the exploitation of GM crops in Wales (iii) the labelling of GM foods in Wales, consistent with the policy of the Assembly as exemplified in the vote on the short debate on genetically modified organisms on 29 June 1999? (WAQ453VB)

**The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther):** I refer the Member to the reply given by the First Secretary to the question WAQ376JS from Rhodri Glyn Thomas on 7 July.

### Bwydydd wedi'u Haddasu yn Enetig

**Nick Bourne:** Pryd mae Christine Gwyther yn bwriadu gwneud datganiad ar (i) gwaharddiad ar dyfu cnydau; (ii) ecsbloetio cnydau yng Nghymru a addaswyd yn enetig; (iii) labelu bwydydd a addaswyd yn enetig yng Nghymru, yn unol â pholisi'r Cynulliad a ddangoswyd yn y bleidlais ar y ddadl fer ar organebau wedi'u haddasu'n enetig ar 29 Mehefin 1999? (WAQ453VB)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddodd y Prif Ysgrifennydd i gwestiwn WAQ376JS gan Rhodri Glyn Thomas ar 7 Gorffennaf.

## Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd Questions to the Environment Secretary

### Free Rail Transport for Senior Citizens

**Nick Bourne:** Will Peter Law investigate making the use of rail transport, as well as bus travel, free for senior citizens in Wales? (WAQ460VB)

**The Environment Secretary (Peter Law):** The rail passenger franchising director is required to ensure that train operators participate in approved discount card schemes including one for the elderly. Train operators fulfil this obligation in respect of the elderly by participating in the senior railcard scheme.

### Cludiant Rhad ac am Ddim ar y Rheilffyrdd i Bensiynwyr

**Nick Bourne:** A fydd Peter Law yn ymchwilio i ddarparu cludiant rhad ac am ddim ar reilffyrdd yn ogystal ag ar fysiau i bensiynwyr yng Nghymru? (WAQ460VB)

**Ysgrifennydd yr Amgylchedd (Peter Law):** Mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwr rhyddfrefiniau teithwyr trên sicrhau bod cwmnïau trenau yn cymryd rhan mewn cynlluniau cardiau disgownt cymeradwy gan gynnwys un ar gyfer yr henoed. Mae cwmnïau trenau yn cyflawni'r rhwymedigaeth hon o safbwynt yr henoed drwy gymryd rhan yn y cynllun cerdyn trên i bobl hŷn.

### **Council Tax in Caerphilly**

**Michael German:** In order to assist people on fixed incomes who do not qualify for benefits, will Peter Law be able to keep council tax in Caerphilly down to the rate of inflation next year? (WAQ359JS)

**Peter Law:** I cannot give any such guarantee. Increases in council tax are a matter for individual authorities, although they will be influenced by factors such as the Assembly's decisions on the local government settlement for 2000-2001 and how the Assembly chooses to use its reserve powers to limit council tax increases. The Welsh Local Government Association has asked for greater stability in council tax for 2000-2001 and I shall be discussing with the Association ways of achieving this.

### **Treth y Cyngor yng Nghaerffili**

**Michael German:** Er mwyn cynorthwyo pobl sy'n derbyn incwm sefydlog nad ydynt yn gymwys i dderbyn budd-daliadau, a all Peter Law sicrhau na fydd treth y cyngor yng Nghaerffili yn codi'n uwch na'r gyfradd chwyddiant y flwyddyn nesaf? (WAQ359JS)

**Peter Law:** Ni allaf roi sicrwydd o'r fath. Mater i'r awdurdodau eu hunain yw cynyddu treth y cyngor, er y byddant yn dod dan ddylanwad ffactorau fel penderfyniadau'r Cynulliad ynghylch y setliad ar gyfer llywodraeth leol yn 2000-01 a sut mae'r Cynulliad yn dewis defnyddio ei bwerau wrth gefn i gyfyngu ar gynnydd yn nhreth y cyngor. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gofyn ar i dreth cynghorau yn 2000-01 fod yn fwy sefydlog a byddaf yn trafod sut i gyflawni hyn gyda'r Gymdeithas.

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid Questions to the Finance Secretary**

### **National Assembly Budgets**

**Nick Bourne:** Will Edwina Hart set out the position on the carry forward of moneys in Welsh Office/National Assembly budgets over the last ten years and her intentions to follow the practice or otherwise? (WAQ358JS)

**The Finance Secretary (Edwina Hart):** The ability of the Welsh Office to carry forward moneys from one year to the next has always been dependent upon the rules set by the Treasury. These rules have gradually become more relaxed over time. The Assembly will be able to carry forward all unspent resources which fall within its departmental expenditure limit from one year to the next. Officials are currently settling the amount of resources that will be carried forward from 1998-99 with the Treasury. These resources will be added the Assembly's budget for the current year. It is likely that much of these resources will be required to meet commitments that have slipped from 1998-99.

### **Cyllidebau'r Cynulliad Cenedlaethol**

**Nick Bourne:** A wnaiff Edwina Hart amlinellu'r sefyllfa ynghylch arian cyllidebau'r Swyddfa Gymreig/y Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi'i ddwyn ymlaen dros y deng mlynedd ddiwethaf a dweud a yw'n bwriadau dilyn yr arfer ai peidio? (WAQ358JS)

**Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart):** Mae gallu'r Swyddfa Gymreig i ddwyn arian ymlaen o un flwyddyn i'r llall wedi dibynnu erioed ar y rheolau a osodir gan y Trysorlys. Dros amser, bu llacio graddol ar y rheolau hyn. Bydd y Cynulliad yn gallu dwyn ymlaen unrhyw adnoddau heb eu gwario sy'n dod o fewn ei gyfyngiad gwariant adrannol o un flwyddyn i'r nesaf. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn cytuno ar y swm o adnoddau a fydd yn cael ei ddwyn ymlaen o 1998-99 gyda'r Trysorlys. Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu hychwanegu at gyllideb y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn hon. Mae'n debyg y bydd gofyn defnyddio llawer o'r adnoddau i ddiwallu ymrwymadau eraill sydd wedi llithro o 1998-99.